Atodiad B

**Williams Mari Lyn (Rh-CTGC)**

| | |
|---|---|
| **From:** | Jones Dafydd Richard (TA) |
| **Sent:** | 11 August 2016 09:14 |
| **To:** | Williams Mari Lyn (Rh-CTGC) |
| **Subject:** | FW: Delivery access to the Maes. |

Mari : A allwch ateb yr ohebiaeth yma os gwelwch yn dda?

Dafydd Richard Jones,
Cyfreithiwr/Solicitor,
Cyngor Gwynedd.
01286 679038
32038
dafyddrichardjones@gwynedd.llyw.uk

Original Message
From: Jones Dafydd Richard (TA)
Sent: 11 August 2016 09:13
To: Gwyndaf Jones
Subject: RE: Mynediad i ddanfon nwyddau i'r Maes

Mr Jones: Diolch am eich neges, ac rwyf wedi anfon yr un neges at yr Uned Barcio, a byddaf yn gofyn iddynt eich hateb chi'n uniongyrchol.

Dafydd Richard Jones,
Cyfreithiwr/Solicitor,
Gwynedd Council
01286 679038
32038
dafyddrichardjones@gwynedd.gov.uk

Original message
From: Gwyndaf Jones [mailto: gwyndaf.jones@btinternet.com]
Sent: 10 August 2016 17:17
To: Jones Dafydd Richard (TA)
Subject: Mynediad i ddanfon nwyddau i'r Maes

Annwyl Mr Jones,

Rydym yn gwrthwynebu'r cyfyngiadau ar ddanfon nwyddau i'r Maes. Bydd yn anymarferol i ni fynd ati gyda'n busnes yn Copa ac yn Y Castell.

Nid yw'r cynigion yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl.

Ymhellach, dylid cyfyngu tacsis i bedwar cerbyd yn unig.

Mae ein cyflenwyr wedi dweud na fyddant yn medru danfon cynnyrch atom o fewn yr amserlenni hynny.

Gwyndaf Jones

RhG Cwrw Da.

Atodiad B

Siambr Fasnach
Caernarfon

19 Twll Yn Y Wal
Caernarfon
Gwynedd LL55 1RF

E-bost: eclectika.homeware@gmail.com

Web: www.caernarfonchamber.co.uk

Mr Iwan G Evans
Pennaeth Adran Gyfreithiol, Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jel
Caernarfon LL55 1SH

26 Awst 2016

Annwyl Syr

**Parthed: Cyngor Gwynedd Gwahardd a Rhwystro Llwytho a Dadlwytho Nwyddau (Y Maes yng Nghaernarfon)**

Mae Siambr Fasnach Caernarfon yn wynebu'r rhybudd uchod ac yn arbennig y bwriad i wahardd i rwystro dosbarthu rhwng yr oriau 8.30 a 7.30. Mae hyn yn amlwg yn achosi pryder i'n haelodau a busnesau nid yn unig ar ac yn ardal Y Maes ond yn gyffredinol yn ardal Y Maes.

Ym marn y Siambr, bydd yn amhosib i'n haelodau gydymffurfio gyda'r gwahariad arfaethedig am y rhesymau canlynol:

1. Mae'r cynllun yn datgan y gwaharddiadau yn dweud " ni fydd llwytho na dad lwytho rhwng 8.30 a 7.30 gan eithrio lleoliad sydd wedi gydag arwyddion." Yr unig leoliad gydag arwydd yw Pen Llyn. Mae'r lleoliad yma yn eithriadol o gul a dim ond yn addas i gerbyd o faint canolig ar unrhyw adeg. Bydd hyn yn arwain at fwy byth o aros a thagfa yn y Bont Bridd.

2. Mae llawer o fusnesau lleol yn ddibynnol ar werthwyr trydydd-llaw; wedyn bydd y gwerthwyr hyn yn defnyddio dosbarthwyr trydydd-llaw, eu llwybr dosbarthu ac amserlen neu gymysgfa o'r rhain. Nid oes gobaith amseru yn union amser dosbarthu o fewn yr oriau hyn oherwydd gwanhaol ffactorau sydd tu hwnt i'r gwerthwyr neu'r busnesau lleol.

   Mae'r rhain yn cynnwys amserlen y teithio o'r warws (i ddosbarthwyr ymhellach i ffwrdd o Gaernarfon); y posibilrwydd o dagfeydd traffig, neu yn syml bod y cwmnïau hyn ddim yn dosbarthu o fewn yr oriau hyn.

3. Tu hwnt i'r uchod, hyd yn oed os byddai'n bosib ac yn ymarferol i holl ddosbarthu gael ei amseru yn hollol unedig, rydym yn cynnig ei fod hollol afresymol i ddisgwyl busnesau wynebu amser a chostau ychwanegol i ddisgwyl dosbarthu cyn 8.30 y bore neu ar ôl 7.00 yr hwyr.

*"To promote the economic growth and stability of Caernarfon and surrounding areas, for the benefit of all."*

Mae'r Siambr yn deall y rhwymedigaeth ar y Cyngor i weithredu rheolaeth traffig a pharcio ac i sicrhau bod cyfleusterau a diogelwch y cyhoedd, er hynny rydym yn erfyn ar y Cyngor i:

1. Chysidro a chydnabod pwysigrwydd busnesau'r Dref i'r economi lleol ac i gymryd i ystyriaeth yr elfen ymarferol a'r effaith a gaiff y rheolau fel hyn, unai parthed Y Maes neu yn gyffredinol o fewn chanol y Dref.

2. I un ai ddileu'r rhwystrau dosbarthu arfaethedig yn gyfan gwbl neu ddarparu llefydd dosbarthu wedi ei marcio'n bwrpasol ar Y Maes.

Yr eiddoch yn gywir

Ar ran Siambr Fasnach Caernarfon

*"To promote the economic growth and stability of Caernarfon and surrounding areas, for the benefit of all."*

GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

22/23 Y Maes, Caernarfon, Gwynedd LL55 2NA
**Ffôn/Tel:** 01286 671153
**Ebost/Email:** gisda@gisda.co.uk
www.gisda.co.uk

MLW

06/09/2016

Annwyl Mair,

Rwyf yn ysgrifennu'r llythyr yma mewn ymateb i'ch llythyr yn ddyddiedig 23ain o Fai sydd wedi dod i'm sylw.

Rwyf ar ddeall eich bod yn ystyried newid cyfyngiadau parcio ar y maes yng Nghaernarfon. Fel cwmni gallwn ddeall eich bod yn ceisio gwneud gwelliannau i'r maes er mwyn ei wella, ond hoffwn dynnu eich sylw at y ffaith fod nifer o gwmnïau ar y maes yn derbyn eu cynnyrch yn ystod y dydd. Er gwaethaf dymuniadau i dderbyn nwyddau yn fuan yn y bore mae hyn yn anodd i nifer o gwmniau oherwydd cyfyngiadau oriau agor. Yn ogystal â hyn gall fod yn anodd i'r cwmnïau sydd yn danfon oherwydd ceisiadau gan nifer o ardaloedd i fod mewn llefydd o fewn amser penodol.

Ac i ni fel elusen sydd yn ceisio gwneud ein gwaith yn gynaliadwy trwy weithio o fewn y gymuned a chynnig gwasanaeth cludo bwyd poeth, byddai'r newidiadau hyn yn gallu bod yn niweidiol iawn i ni os na fydd modd i ni lwytho ein fan gyda bwyd poeth o'n caffi ar y maes.

Byddai cynnig gwasanaeth cludiant bwyd poeth yn cael ei wneud yn anodd iawn os na fyddwn yn gallu dod a'r fan yn agos at y caffi o fewn yr oriau sydd yn cael eu cynnig. Er mwyn llwytho bwyd poeth o'r popty yn y gegin i'r popty yn ein fan fwyd heb son am y cymhlethdodau yng nghlwm a gofynion glendid bwyd. O bosib y byddai rhaid i ni ail-ystyried ein gallu i gynnig gwasanaeth o'r fath a all gael niwed ar ein sefyllfa ariannol all arwain at golledion i swyddi yn ogystal â chynaladwyedd ein menter Gymdeithasol.

Dymunaf i chi gymryd yr uchod i ystyriaeth gan fod ein fan yn bresennol yn cael ei llwytho am 9:00-9:20. Gyda gofynion glendid bwyd yn gofyn i ni beidio dal bwyd yn gynnes am gyfnodau hir a byddwn yn arfer dychwelyd yn ôl i'r maes i ddadlwytho'r fan neu hyd yn oed ail lenwi er mwyn parhau'r gwasanaeth dros gyfnod Cinio am 11:00. Yna dadlwytho er mwyn gwagio'r fan o unrhyw fwyd rhyw ben o amgylch cinio. Bydd rhoi rhwystr amser ar hyn yn cael effaith mawr ar ein busnes.

Yn Gywir

Te a Cofi Gisda

LYNDSEY THOMAS - ARWEINYDD TIM MENTRAU GYMDEITHASOL

ISOQAR REGISTERED UKAS 0026
Certificate Number 13393
ISO 9001

Llywodraeth Cymru Welsh Government

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

CYFLOGWR YSTYRIOL MINDFUL EMPLOYER

Rhif Elusen Gofrestredig / Charity Registration Number: 1068325 • Cwmni Cyfyngedig dan warant / Company Limited by Guarantee: 2484575

**Williams Mari Lyn (Rh-CTGC)**

| | |
|---|---|
| **From:** | james cooke <jandcchippy@googlemail.com> |
| **Sent:** | 06 September 2016 09:57 |
| **To:** | Williams Mari Lyn (Rh-CTGC) |
| **Subject:** | Restrictions, Castle square, caernarfon |

Annwyl Mari ,

Wedi derbyn y gwybodaeth ynglyn ar rhwystra newydd , ydwi yn awgrymu eich bod yn gostwn yr amser dim llwytho o 8.30am at 6pm yn blwm ar amserlen sydd yn bodoli ar stryd llyn 11am tan 4.30pm, fy nheimlad I yw fydd yn haws I rheoli yn blwm ac stryd llyn ac yn rhoid y cyfle I pob busnas cael chwaer teg.

Yn wir
Cynghorydd Endaf Cooke

Atodiad B

**Williams Mari Lyn (Rh-CTGC)**

| | |
|---|---|
| **From:** | Ross Delyth Wyn (CG) |
| **Sent:** | 08 September 2016 11:57 |
| **To:** | Williams Mari Lyn (Rh-CTGC) |
| **Subject:** | FW: Pool Street / Stryd Llyn, Caernarfon |

Annwyl Mari – anfonaf y nodyn yma atoch yn dilyn cysylltu hefo adran cyfreithiwyr Gwynedd.

Diolch - Delyth

Annwyl Dafydd

Gofynnwyd i mi gysylltu â chi ar ran y Cyng Roy Owen. Mae Roy yn bryderus iawn oherwydd Gorchymyn Rheolaeth Traffig Llwytho ac Dadlwytho - sydd yn mynd i gael effaith negyddol ar fusnesau Stryd Llyn.

Fel y gwyddoch, ar hyn o bryd mae'n bosib i gerbydau yrru i fyny'r stryd hon hyd at 11am - i lwytho ac dadlwytho. Fodd bynnag gyda'r Gorchymyn newydd, byddai'r amser yn cael ei gyfyngu i fyny at 8.30am yn unig. Mae perchnogion a gweithwyr y busnesau ar y stryd yn hollol yn erbyn y newid yma - maent yn credu y byddai'r newid yn amharu yn negyddol ar eu busnesau ac maent yn bryderus iawn y byddent yn colli'r cyfle i gael nwyddau i'w siopau gan fod 8.30am yn llawer rhy fuan i gau'r stryd i gerbydau. Un esiampl a roddwyd i mi oedd beth petai problem ar yr A55 yn golygu bod lori yn hwyr yn danfon nwyddau.

Ar ran y busnesau mae Roy yn awyddus iawn i'r adran ail feddwl am y newidiadau yma.

*Delyth Wyn Ross*
**SWYDDOG CEFNOGI GRŴP ANNIBYNNOL / INDEPENDENT GROUP ASSISTANT**
Cefnogaeth Gorfforaethol / Corporate Support
Cyngor Gwynedd Council
☎ (01286) 679017 - Est / Ext: 2017
DelythWynRoss@gwynedd.gov.uk

**Hwb Caernarfon**
19, Stryd Twll yn y Wal, Caernarfon, Gwynedd
ebost/*email*: post@hwbcaernarfon.cymru

Iwan G. Evans, LL.B.,
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol,
Cyngor Gwynedd,
Caernarfon,
Gwynedd,
LL55 1SH

CYNGOR GWYNEDD
09 MEDI 2016
GWASANAETH CYFREITHIOL

**Par: Gwahardd a Chyfyngu Llwytho a Dadlwytho Nwyddau (Y Maes Caernarfon) 2016.**

Annwyl Syr,

Ysgrifennaf atoch ar ran Hwb Caernarfon i fynegi pryder gynlluniau i wahardd llwytho a dadlwytho nwyddau rhwng 8.30yb a 7.00yh ar Y Maes yng Nghaernarfon. Bydd y newid yma yn cael effaith negyddol ar fusnesau yng nghanol y dref, a dosbarthu i'r busnesau hynny, yn enwedig y rhai ar Y Maes.

Mae nifer o fusnesau yn ddibynnol ar wasanaeth 'dosbarthu'r diwrnod wedyn' er mwyn iddynt allu cystadlu'n llwyddiannus gyda siopau ar-lein. Buasai'r cynlluniau yma yn gwneud trefniadau dosbarthu fel hyn yn anymarferol a bron yn amhosibl. O dan y cynlluniau arfaethedig, buasai rhaid i berchnogion busnes fod ar gael tu hwnt i oriau busnes, a chwmnïau dosbarthu sydd ond yn dosbarthu rhwng 8.30yb a 7.00yp yn cael eu gorfodi i barcio ar y strydoedd sy'n arwain at, ac sydd o amgylch Y Maes, gan greu problemau parcio, llwytho/dadlwytho mewn mannau eraill.

Hoffem annog y Cyngor i drafod â busnesau ar y Maes, yn ogystal â chwmniau dosbarthu, yn lleol ac yn genedlaethol, cyn gwneud penderfyniad ar y mater. Hyd y gwelwn does dim problemau llwytho a dadlwytho'n saff ar hyn o bryd, felly pam newid y drefn os ydi'r rhai presenol yn ddigonol.

Buasai'r newid yn y rheoliadau yn achosi problemau i'r holl fusnesau yng nghanol y dref, gofynwn i'r Cyngor gynnig canlyniad fydd yn bodloni cynlluniau'r Cyngor, yn ogystal ag anghenion busnesau lleol.

Edrychwn ymlaen i dderbyn eich ymateb,

Yn gywir,

Chris Stuhlfelder

**Cadeirydd Hwb Caernarfon**

c.c. Dilwyn Williams (Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd), Roy Owen (Cynghorydd Ward Seiont)

Atodiad B


CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON
CAERNARFON ROYAL TOWN COUNCIL

Adeilad yr Institiwt,
Allt Pafiliwn,
Caernarfon. LL55 1AT

Institute Building,
Pavillion Hill,
Caernarfon. LL55 1AT

Clerc y Dref Katherine Owen Town Clerk

(01286) 672 943
01286 676 392

e-bost / e-mail: clercydref *neu/or* townclerk @caernarfontowncouncil.gov.uk

Wefan/Website - www.caernarfontowncouncil.gov.uk


Cyngor Gwynedd
Adran Gwasanaethau Cyfreithiol,
Swyddfa'r Cyngor,
Caernarfon LL55 1SH

9 Medi 2016

Eich cyf: CAR-2759 DJI eew

Annwyl Feistri,

***Par: Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Gwahardd a Chyfyngu Llwytho a Dadlwytho Nwyddau) (Y Maes Caernarfon) 2016***

Diolch am eich gohebiaeth parthed yr uchod dyddiedig 9 Awst a ddaeth o flaen Cyngor Tref nos Fawrth diwethaf 6 Medi.

Cafwyd trafodaeth eang ar y pwnc a daeth y Cyngor i benderfyniad i wrthod y ddogfen gan nad oedd cynnwys y ddogfen o les i drigolion Caernarfon.

Yn gywir,

**Katherine Owen SILCM**
**Clerc y Dref**

CYNGOR GWYNEDD
13 MEDI 2016
GWASANAETH CYFREITHIOL

Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog.
Walled Towns Friendship Circle.

Gefeillwyd â Landerne, Llydaw.
Twinned with Landerneau, Brittany.